

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Medi 6ed, 2018 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Tegid Jones; Trefor Wyn Jones; Gareth O Davies; Naomi Jones; Sion Aled Jones; Ceri Jones; William Ifor Hughes; Sian Angharad Parry; Aled Davies; Thomas Prys Jones a'r Clerc.

Croesawyd Mrs Bethan Parry Jones, y Darpar Glerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor

1. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorydd Angela Williams.
2. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Orffennaf 5ed, 2018.
3. Arwyddwyd cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol. Y Cynghorydd Sion Aled Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 7.5, Ceisiadau Cynllunio Cyngor Gwynedd achos mai fo ydi perchennog Dolafon:
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 –Apêl o dan Adran 78(1)
Cyf. Cyngor Gwynedd C18/0109/41/RC – cais i dynnu Cytundeb 106 fforddiadwy; Dolafon, Llanystumdwy. Penderfyniad gwreiddiol y Cyngor yma ar Fawrth 8fed, 2018 oedd dim gwrthwynebiad.
6. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned: ffyrdd ger Gaerddu Fawr a Betws Bach, Penbryn i Dalar Deg a gweledd drwy dro Pont Rhydybenllig B4411. Penderfynwyd derbyn y sylwadau ynghylch y ffyrdd ger Gaerddu Fawr a Betws Bach ac addawodd y Cynghorydd Sion Aled Jones gysylltu gyda pherchennog un o'r tai sydd ger y bont i drafod gweledd yr ochr honno i'r bont.
 2. Deddf Rheoli Trafnidiaeth y Ffyrdd 1984- Adran 14(2) wedi ei gywiro gan y ddeddf trafndiaeth ffordd (cyfyngiadau dros dro) 1991.
Cyngor Gwynedd – cau'r ffordd dosbarth 111 rhwng Arfryn a Gelli Gron, Llanarmon; gwaharddiad trafndiaeth trwodd dros dro. Derbyniwyd.
 3. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio. Penderfynwyd ymateb drwy ddweud bod angen i'r Adran Gynllunio wrando mwy a chymeryd sylw o sylwadau'r Cyngor Cymuned, mai gyda threthdalwyr y maent yn delio yn hytrach na chwsmeriaid ac i beidio cuddio tu ôl i ymarferiad di bwynt.
 4. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; ceir yn parcio ar y ffordd ger tai Glanwern, Chwilog. Penderfynwyd gofyn am linellau melyn dwbl o flaen y tai, bod maes parcio a llwybr cysylltiol wedi'i baratoi ar gyfer trigolion y tai ac felly nad oes angen iddynt barcio eu ceir yn y stryd.
 5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; rhaglen waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Medi 2018. Derbyniwyd er gwybodaeth y bydd gwaith slyri ar y droedffordd, Adran Priffyrdd yn Stâd Ty'n Rhos, Chwilog a gwaith draeniad, Adran Priffyrdd ger Betws Bach, Rhoslan.
 6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; biniau baw ci Afonwen a'r Lôn Goed. Derbyniwyd er gwybodaeth bod y biniau baw ci yma yn eu lle erbyn hyn.

7. Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Rheolwr Uned Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd; Cludiant Cymunedol. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc holi O Ddrws i Ddrws ac yna gysylltu nôl gyda'r Cyngor Sir.
7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.
1. Cais Rhif C18/0547/41/LL – Codi estyniad blaen; Trefin, Chwilog. Dim gwrthwynebiad.
 2. Cais Rhif C18/0176/41/LL – Cais llawn i ddymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd; Llain Gam, Chwilog. Cefnogi.
 3. Cais Rhif C18/0544/41/LL – Newidiadau i gynllun a ganiateir o dan C13/0062/41/LL gan gynnwys cadw estyniadau yn lle eu dymchwel, dymchwel lolfha haul bresennol a chodi estyniad deulawr yn ei le, codi estyniadau unllawr ar ffurf iard caeedig, estynnu modurdy/sied goed; Pencaemelyn, Llanystumdwy. Cefnogi.
 4. Cais Rhif C18/0573/41/LL – Codi llety gwyliau pwrpasol yn lle carafan statig bresennol; Swn y Môr, Chwilog. Gwrthwynebu achos gor ddatblygu, mae gormodedd o lety hunan ddarpar yn agos iawn i'r safle yma. Pe byddai'r awdurdod Cynllunio yn penderfynu caniatâu'r cais yna dylid cael yr amodau hyn.
 - a. Mai fel uned gwyliau yn unig y dylai hwn fod a bod y perchennog i gadw cofrestr o'r rhai sydd yn defnyddio'r eiddo a bod y gofrestr honno ar gael i'w archwilio gan swyddogion y Cyngor ar unrhyw adeg, fel gyda safle carafannau. Does dim hawl i unrhyw un fyw ynddo yn barhaol.
 - b. Fod yr eiddo i fod yn iswasanethol i Sw'n y Môr a dim hawl i'w werthu ar wahân.
 - c. Dim caniatâd i ragor o ddatblygiadau ar y safle heb ganiatâd cynllunio, waeth beth yw eu maint.
 5. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl o dan Adran 78(1) Cyf. Cyngor Gwynedd C18/0109/41/RC – cais i dynnu Cytundeb 106 fforddiadwy; Dolafon, Llanystumdwy. Penderfyniad gwreiddiol y Cyngor yma ar Fawrth 8fed, 2018 oedd dim gwrthwynebiad. Ni anfonwyd sylwadau pellach.
 6. Cais Rhif C18/0673/41/LL – Codi estyniadau unllawr ar ochr a chefn yr eiddo ynghyd a chodi porth ar y blaen; Llwyn Dwyfog, Llanybi. Dim gwrthwynebiad.

Anfonwyd y sylwadau uchod ar sail yr ymatebion gafwyd gan rai Cynghorwyr ac yna ymgynghori gyda'r Cadeirydd ac mae angen eu cadarnhau. Cadarnhawyd yr holl benderfyniadau.

7. Cais C18/0722/41/LL – Cais ar gyfer darparu safle ar gyfer 15 uned teithiol gan gynnwys ystafell hamdden a toiledau; Fferm Afonwen, Chwilog. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais yma ar sail bod gormodedd o safleoedd o fewn ardal gyfyng.

* Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

8. Cais Rhif C18/0753/41/LL – Gosod to crib uwchben ystafell haul bresennol; 1 Penygroes, Chwilog. Dim gwrthwynebiad.

8. Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 ymlaen; tri Cynghorydd heb lofnodi. Roedd dau o'r tri oedd heb lofnodi yn bresennol, hwythau hefyd ddim am dderbyn y lwfans am eleni.

9. Adroddiad Blynyddol ar Gae Chwarae Llanybi; wedi anfon hon ymlaen atoch. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. Doedd dim byd angen sylw buan.

10. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

1. Y Plu.

Derbyniwyd er gwybodaeth y bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Neuadd Llanystumdwy, nos Iau, Medi 27ain i drafod bwriad o gael menter gydweithredol i'w brynu.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

2. Wal maes parcio Llanystumdwy.

Adroddwyd bod yr atgyweiriadau wnaed i'r wal wedi eu tynnu lawr ar sail diogelwch yn ôl Cartrefi Cymunedol Gwynedd ac y bydd y wal yn cael ei hatgyweirio eto maes o law. Derbyniwyd.

Rhoslan

Chwilog

Post Chwilog.

Derbyniwyd er gwybodaeth y bydd y siop a'r post yn cau ddiwedd mis Medi. Trafodwyd efallai y trefnir rhywbeth cymunedol, Cyngorwyr Ward Llanarmon i drafod ymhellach.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

11a. Pwyllgor Mynwent Llanystumdwy. Derbyniwyd diweddariad o'r sefyllfa ynghylch Mynwent Newydd Llanystumdwy.

b. Ymddiswyddiad y Cyngorydd Marian Evans. Derbyniwyd a chofnodwyd gwerthfawrogiad o'i chyfraniad i waith y Cyngor. Gofynnwyd am i lythyr gael ei anfon ati i fynegi'r gwerthfawrogiad hwnnw. Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i wneud trefniadau i lenwi'r sedd wag.

Materion Ariannol

12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Fel sy'n arferol rhoddwyd adroddiad lawn yn nodi yn union beth ydi'r sefyllfa ariannol yn cael ei gefnogi gan adroddiadau banc cyfredol. Mae rhai anfonebau heb eu derbyn, Cyngor Gwynedd am wneud Archwiliad Ariannol Mewnol a Mr D E Williams am wneud gwaith brys ym lloches bws Maes Myrddin, Chwilog; roedd y Clerc wedi ymgynghori gyda'r Cadeirydd cyn i'r gwaith yma gael ei wneud. Yn dilyn yr adroddiad gofynnwyd i drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid fod ar raglen waith cyfarfod mis Hydref.

Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Derbyniwyd yr adroddiad.

13. Archwiliad Ariannol Allanol gan gwmni BDO. Dal heb gael ei chwblhau mae'r archwiliad yma. Dyma sut yr ymatebwyd i'r ymholiadau.

Cyngor Cymuned Llanystumdwy – Archwiliad Blyneddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

Pwyntiau Archwilio heb eu Hateb

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas ag archwiliad blyneddol Cyngor Cymuned Llanystumdwy ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Isod fe welwch restr o'r pwyntiau sydd heb eu hateb; mae angen eich cymorth arnaf gyda'r pwyntiau hyn er mwyn cwblhau'r archwiliad blyneddol.

Beth yw'r pwynt sydd heb ei ddatrys? Dydych chi ddim wedi darparu dadansoddiad o'r cronfeydd wrth gefn (h.y. balans wedi'i gario drosodd) o £24,720. Dim ond dadansoddiad o dderbyniadau a thaliadau dros y blyneddodd diwethaf gafodd ei ddarparu.

Ateb: £24,730- (£24,729.94c) nid £24,720- oedd y balans gafodd ei gario drosodd. Mae'r datganiadau banc anfonwyd atoch yn dangos bod yr arian mewn tri cyfrif:

1. Cyfrif Cymunedol: £882.48c (Arian gan Gwmni Lightsource am fferm solar, sydd yn cael ei rannu yn y gymuned)

2. Cyfrif Arbennig: £4,565.18c (Dyma arian wrth gefn y Cyngor ar gyfer prosiectau brys)

3. Cyfrif Cyfredol: £19,282.28c (Dyma gyfrif o ddydd i ddydd y Cyngor)

Fel y dywedais rydych wedi derbyn y datganiad banc olaf am y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2018 i'r tri cyfrif a chysoniad y banc wedi'i arwyddo gan y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Beth sydd ei angen i ddatrys y mater? Mae angen i chi ddarparu:

- dadansoddiad o'r cronfeydd wrth gefn (h.y. balans wedi'i gario drosodd) o £24,720.

- esboniad ar gyfer pob eitem yn y dadansoddiad a'r dyddiad y disgwylir y bydd y cronfeydd yn cael eu defnyddio.

Ateb: Fel y nodais uchod mae'r balans gariwyd drosodd o £24,730- (nid £24,720-) wed'i rannu i dri cyfrif.

Cyfrif 1 Cyfrif Cymunedol:£882.48c- Mae swm yn cael ei dalu i'r Cyngor bob blwyddyn i'w rannu yn y gymuned. Llynedd rhannwyd £6,450-, arian dwy flynedd; mae'r wybodaeth yma yn Atodiad 4 Datganiad Llywodraethant Blynyddol (Rhan 2). Roedd £882.48c dros ben yn y cyfrif (llai erbyn hyn) achos mae'r Cyngor wedi penderfynu talu am roi cysylltiad Wi Fi a thaliad blynyddol Wi Fi yn y tair neuadd/canolfan yng nghymuned Llanystumdwy. Mae angen yr arian yma i dalu am hyn nes daw taliad Lightsource am eleni (2018/19).

Cyfrif 2 Cyfrif Arbennig: £4,565.18c. Mae angen cadw arian wrth gefn fel hyn achos mae'r Cyngor Cymuned yn gorfod talu/cyfrannu at nifer o wasanaethau oedd yn cael eu darparu gan y Cyngor Sir sef Cyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu £2,000- i Gyngor Gwynedd bob blwyddyn tuag at gostau cynnal y toiledau cyhoeddus yn Llanystumdwy; bydd y Cyngor Cymuned yn talu am lenwi y biniau halen/graeau sydd yn y gymuned o fis Hydref eleni ymlaen; mae cost hyn yn ddibynnol ar sut dywydd geir yn ystod y gaeaf ac os bydd angen ail lenwi ai peidio. Erbyn hyn hefyd mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn llai bob blwyddyn o ad daliad gan y Cyngor Sir am wario ar y llwybrau cyhoeddus sydd yn y gymuned. Pwy a wŷr beth fydd y disgwyliadau yn y flwyddyn hon (2018/19) a'r blynyddoedd sydd i ddod?

Dyna pam mae gofyn cadw arian wrth gefn.

Cyfrif 3 Cyfrif Cyfredol: £19,282,28c. Mae'r balans yma yn uwch na'r disgwyl oherwydd dau brosiect gan y Cyngor oedd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ond oedd heb gael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwaith 1 oedd gwaith ar Gae Chwarae Llanygybi (£1,965.60c yn cynnwys TAW) a gwaith 2 oedd symud arosfan bws ym mhentref Llanystumdwy (£1,800- yn cynnwys TAW).

Erbyn hyn mae'r gwaith a'r taliadau wedi'u gwneud;

Yn cynnwys ychwanegiadau, gwaith Cae Chwarae: £2,424- + arosfan bws: £1,800-; cyfanswm £4,224-

Felly y balans mewn gwirionedd ydi £19,282.28c - £4,224- = £15,058.28c

Pam mae hyn yn angenrheidiol?

Mae angen i ni dderbyn hyn At ddibenion yr archwiliad.

Os gwelwch yn dda hoffwn gael ymateb i'r e bost yma a gorffen yr archwiliad erbyn dydd Mercher, Medi 5ed oherwydd mae cyfarfod mis Medi'r Cyngor yn cael ei gynnal ar nos Iau, Medi 6ed. Byddai hynny'n golygu gallu cwblhau'r archwiliad cyn Medi 30ain, 2018.

Diolch,

Richard J Roberts,

Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol, Cyngor Cymuned Llanystumdwy

14. Derbyn ail daliad y Praesept gan Gyngor Gwynedd £7,500-. Penderfynwyd derbyn.
15. Derbyn arian bwrsari tuag at gwrs y SLCC yn Llandudno £32.50c. Derbyniwyd.
16. Anfonebau angen eu talu:
 - a. Un Llais Cymru, dau gynrychiolydd i'r gynhadledd yn Llanellwedd ar Fedi 29ain, 2018, pris gostyngol o £85- x 2 = £170; taliad BACS wedi'i wneud. Derbyniwyd.
 - b. SLCC, Cynhadledd yn Llandudno ar Fedi 5ed i'r Clerc a'r Darpar Clerc; £102.50 + TAW cyfanswm £123-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.
 - c. Mr Richard Hubbard am chwistrellu canclwm siapaneaidd a thorri balsam ar dir y Cyngor ger pont pentref Llanystumdwy £160-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.
 - ch. Criccieth Cleaning Ltd am lanhau'n chwarterol lochesi bws y Cyngor ar Orffennaf 31ain, 2018; £103- + TAW cyfanswm £123.60c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.
 - d. Capel Pencaenewydd am gael defnyddio'r festri Gorffennaf 5ed, £15-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.
17. Llythyr ymddiswyddiad y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Penderfynwyd ei dderbyn. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith dros y saith mlynedd a hanner diwethaf. Diolchodd y Clerc i'r Cynghorwyr am eu cydweithrediad parod a dymunodd yn dda i'r Clerc newydd yn ei gwaith.
18. Llythyr yn derbyn swydd Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mrs Bethan Parry Jones, Derwen Gam, Chwilog. Derbyniwyd.
19. Gliniadur a cho bach i'r Clerc a SAC newydd. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Tegid Jones ac Aled Davies fynd gyda'r Clerc newydd i siop ym Mhorthmadog i brynu rhain a gwasanaeth wrth gefn ynghyd â gwasanaeth cynnal a chadw.
20. Cytundeb Cyflogaeth y Clerc a SAC newydd. Gofynnwyd i'r Clerc anfon cytundeb newydd i'r Clerc newydd a chopi i'r Cadeirydd. Bydd angen arwyddo'r gytundeb yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor.

It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerk.

